

Gwers 20



Cyfres Stori Duw

Dafydd, Brenin Duw

1 Samuel 17

Nod:

Gweld Duw yn dangos ei allu drwy Dafydd, er ei fod yn ifanc ac er ei fod yn fyfhan.

Adnodau:

1 Samuel 17

Cefndir / gosod y sefyllfa:

Prawf cyntaf Dafydd ar ôl cael ei eneinio yn frenin ar gyfer y dyfodol, oedd wynebu Goliath. Roedd y Philistiaid wedi mynd i ryfel yn erbyn Israel, ac roedd Goliath eu pencampwr yn herio'r Israeliaid gan ofyn i rywun ei wynebu mewn brwydr. Roedd pawb ym myddin Israel yn ofni'r cawr, roedd hyd yn oed y brenin Saul, a oedd yn ddyn mawr a chryf, yn ofnus ac nid oedd ganddo ddigon o ffydd i wynebu Goliath.

Gweithgaredd:

Gallwch ddewis un gweithgaredd, neu chwarae'r ddwy gêm ganlynol;

1. Gornest brwydr braich

Cynhaliwch dwrnamaint 'brwydr braich', i weld pwy yw'r cryfaf. Os oes gwahaniaethau mawr o ran maint neu oedran yn y dosbarth, ceisiwch roi pawb mewn parau teg. Gwnewch yn siŵr hefyd fod pawb yn bod yn ofalus yn ystod y twrnamaint.

2. 'Dodgeball' Dafydd a Goliath

Dilynwch reolau arferol dodgeball (fe fydd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn gyfarwydd â'r gêm, felly peidiwch â phoeni'n ormodol os yw'r cyfarwyddiadau'n edrych yn gymhleth)

• 2 dîm, un bob ochr i linell yng nghanol yr ystafell [gallwch roi sribed o dap masgio ar y

llawr i wneud llinell].

- 2 bêl, peli sy'n ddigon meddal i beidio brifo os ydynt yn taro wyneb rhywun.
- Gosod y peli yn y canol, ar y llinell rhwng y ddau dîm.
- Yn ystod y gêm, ni fydd unrhyw aelod o'r tîm yn cael croesi'r llinell i ochr y tîm arall.
- Pwrpas y gêm yw taro aelod o'r tîm arall gyda'r bêl cyn iddi fownsio, ac unwaith mae rhywun yn cael ei daro â phêl maent allan.
- Mae'r gêm hon ychydig yn wahanol i gêm arferol o dodgeball. Ar gychwyn pob rownd bydd y timau'n dewis aelod o'r tîm arall i fod yn 'Goliath' (ni fydd y tîm arall yn cael gwybod pwy, ond bydd yn rhaid iddynt ddweud wrthyfych chi'r dyfarnwr). Nid yw'r tîm arall yn gwybod pwy yw'r Goliath, ond unwaith mae Goliath yn cael ei daro gan bêl mae'r tîm i gyd allan.

Darllen yr adnodau:

Mae'r darlenniad yn y Beibl yn hir, felly byddai'n syniad da i chi roi'r hanes yn eich geiriau eich hun. Y fantais gyda'r stori hon yw y bydd yn gyfarwydd i'r mwyafrif os ydynt wedi bod yn rhan o'r ysgol Sul yn y gorffennol. Wrth i chi ddarllen yr hanes gall y bobl ifanc ddilyn yn eu Beiblau.

Dyma'r prif bwyntiau sydd angen eu cynnwys:

- Y rhyfel rhwng y Philistiaid a'r Israeliaid
- Goliath yn anferth – 9 troedfedd o daldra ac yn ofnadwy o gryf
- Goliath yn herio'r Israeliaid a hwythau'n ofnus

- Tad Dafydd yn gofyn iddo fynd â bwyd i'w frodyr a oedd ym myddin Israel
- Dafydd yn cynnig ymladd Goliath, ond nad oedd y brenin Saul yn credu y gallai lwyddo i'w drechu.
- Dafydd yn dweud y bydd Duw yn ei waredu (ad 37) ac mae Saul yn gadael iddo fynd.
- Er cael cynnig arfau Saul, mae Dafydd yn gwrthod, ac yn hytrach yn penderfynu mynd gyda ffon dafl a 5 carreg yn unig.
- Wrth i Goliath herio eto, mae Dafydd yn ymateb gan ddweud ei fod yn dod yn enw'r Arglwydd.
- Gydag un garreg, mae Dafydd yn llorio Goliath, ac mae yntau yn disgyn i'r llawr yn farw.

Trafod:

Gofynnwch a yw dewis Duw o frenin newydd yn ddewis doeth? Gwelwn o'r hanes hwn fod Dafydd wirioneddol yn rhoi ei ffydd yn Nuw. Gwelwn ei fod yn hyderus yng ngallu Duw, gwelwn nad yw'n fodlon gadael i Goliath a'r Philistiaid wneud hwyl am ben yr Israeliaid gan fod hyn yn adlewyrchu'n ddrwg ar Dduw, gan mai ei bobl Ef ydynt.

Ydy'r bobl ifanc yn sylweddoli bod Duw am eu defnyddio hwy i wneud ei waith fel y defnyddiodd Dafydd? Mae'n hawdd meddwl mai dim ond drwy'r gweinidog, y blaenoriaid neu'r diaconiaid y bydd Duw yn gweithio, ond fel yn achos Dafydd, calon llawn cariad, ffydd a ffyddlondeb sydd ei angen i wasanaethu Duw.

Gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried beth allant

hwy ei wneud i fod yn ffyddlon i Dduw, a gweithio drosto yn yr eglwys ac yn y byd. Gallwch eu harwain os ydynt yn cael trafferth meddwl am rywbeth. Er enghraifft trafod hel arian at elusen, ffyrdd o wahodd pobl i'r capel/eglwys, neu ffyrdd o rannu'r newyddion da am Iesu gydag eraill.

Pwysleiswch y gall Duw wneud rhyfeddodau trwy eu gwaith a'u bywyd hwy, fel y gwnaeth gyda Dafydd.

Gweithgaredd:

Bwyta Goliath;

Fe fydd angen bananas, cyllyll sydd ddim yn finiog, hufen tun, a digon o bapur cegin. Rhwch fanana yr un i'r bobl ifanc a gofyn iddynt geisio creu cerflun o Goliath allan ohono gan ddefnyddio'r gyllell i'w siapio, a'r hufen i'w addurno. Fe fydd llanast mawr wrth i'r dosbarth wneud hyn, felly gwnewch yn siŵr eu bod yn eistedd wrth fwrdd a bod digon o bapur cegin wrth law.

Rhowch feirniadaeth ddoniol am eu hymdrechion, a gwobrwyo'r un gorau. Yna gadewch iddynt fwyta eu Goliath.

Amser Addoli:

Gweddiwch y bydd pawb yn y dosbarth yn dod yn fwy tebyg i Dafydd, rhai sy'n caru Duw, sydd â ffydd fawr ynddo, ac sy'n ffyddlon iddo, er bod y rhwystrau o'u blaen weithiau'n fawr. Gweddiwch y byddwn yn gweld Duw yn gweithio drwy'r bobl ifanc i adeiladu ei eglwys yng Nghymru ac i ddenu mwy o bobl at Iesu Grist. Amen